# BWRDD PENSIWN

# CRONFA BENSIWN DYFED

# CYLCH GORCHWYL
# A
# RHEOLAU GWEITHREDU

Gweinyddir gan:

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

**Cynnwys**

TROSOLWG ..................................................................................................... 3
1. Cyflwyniad a threfniadau Gweithredu Cyffredinol ............................................ 3

CYLCH GORCHWYL Y BWRDD .............................................................................4
2. Cylch Gorchwyl ................................................................................................. 4

AELODAETH Y BWRDD .........................................................................................5
3. Aelodaeth: Cyfansoddiad ................................................................................. 5
4. Aelodaeth: Penodi Cynrychiolydd Cyflogwyr .................................................... 6
5. Aelodaeth: Penodi Cynrychiolydd Aelodau o'r Cynllun ......................................6
6. Aelodaeth: Penodi Aelod Annibynnol / Cadeirydd.............................................. 6
7. Tymor yn y Swydd ............................................................................................ 7
8. Diswyddo Aelodau ............................................................................................ 7
9. Aelodau'n Ymddiswyddo ................................................................................... 7

TREFNIADAU CYFARFOD
10. Rôl yr Aelod Annibynnol / Cadeirydd ..................................................................8
11. Cyfarfodydd y Bwrdd .........................................................................................9
12. Cworwm ......................................................................................................... 10
13. Pleidleisio .........................................................................................................10
14. Cydnabyddiaeth a threuliau ............................................................................ 10
15. Cyllidebau ....................................................................................................... 11
16. Gwrthdaro Buddiannau ................................................................................... 11
17. Gwybodaeth a Sgiliau ..................................................................................... 12
18. Presenoldeb eraill ........................................................................................... 13
19. Cyhoeddi Gwybodaeth y Bwrdd .......................................................................13
20. Adroddiad Blynyddol ....................................................................................... 14
21. Derbyn cyngor a gwybodaeth ......................................................................... 14
22. Gweithredu er budd y Gronfa gyfan ……….................................................... 15
23. Atebolrwydd .................................................................................................... 15
24. Adolygu, Dehongli a Chyhoeddi'r Cylch Gorchwyl ............................................15
25. Diffiniadau a dehongliad ................................................................................. 16

ATODIAD A – Disgrifiad Swydd Cadeirydd y Bwrdd Pensiwn.................................17

## TROSOLWG

### 1. Cyflwyniad a threfniadau Gweithredu Cyffredinol

1.1. Pwrpas y ddogfen hon yw cyflwyno Cylch Gorchwyl Bwrdd Pensiwn (y Bwrdd) Cronfa Bensiwn Dyfed (y Gronfa). Sefydlir y Bwrdd gan Gyngor Sir Caerfyrddin o dan bwerau Adran 5 o Ddeddf Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus 2013 a rheoliad 106 o Reoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013. Gan hynny, nid yw Cyfansoddiad Cyngor Sir Caerfyrddin yn briodol i'r Bwrdd hwn oni chyfeirir ato'n unswydd oddi mewn iddo ac y'i caniateir gan y Cylch Gorchwyl hwn.

1.2. Bydd y Bwrdd yn arfer ei bwerau a'i ddyletswyddau i gyd yn unol â'r gyfraith a'r Cylch Gorchwyl.

1.3. Bydd y Bwrdd yn cynnwys 7 Aelod, sef 3 Chynrychiolydd Cyflogwyr, 3 Chynrychiolydd Aelodau o'r Cynllun ac Aelod Annibynnol / Cadeirydd.

1.4. Fel yr Awdurdod Gweinyddu, bydd Cyngor Sir Caerfyrddin yn darparu'r gwasanaethau cymorth gofynnol ar gyfer gweithredu a chyflawni dyletswyddau'r Bwrdd.

1.5. Dylai'r Awdurdod Gweinyddu a'r Bwrdd, cyn belled â bo'n rhesymol ymarferol, sicrhau bob amser fod aelodaeth y Bwrdd yn bodloni gofynion y ddeddfwriaeth a bod gan yr Aelodau a benodwyd y sgiliau, y wybodaeth a'r gallu angenrheidiol i'r Bwrdd gyflawni ei swyddogaethau'n effeithiol.

1.6. Goruchwylio fydd y Bwrdd ac felly, nid corff gwneud penderfyniadau yw'r Bwrdd o safbwynt rheoli'r Gronfa ond gall wneud argymhellion yn unig i gynorthwyo â rheolaeth o'r fath. Erys pwerau a chyfrifoldebau rheoli'r Bwrdd a ddirprwywyd, ac a all gael eu dirprwyo gan y Cyngor i bwyllgorau, is-bwyllgorau a swyddogion y Cyngor, yn bwerau a chyfrifoldebau'r pwyllgorau, yr is-bwyllgorau a'r swyddogion hynny yn unig gan gynnwys, ond heb fod wedi'u cyfyngu i osod a chyflawni strategaethau'r Gronfa, dyrannu asedau'r Gronfa a phenodi contractwyr, ymgynghorwyr a rheolwyr y Gronfa.

# CYLCH GORCHWYL Y BWRDD

## 2. Cylch Gorchwyl

2.1. Sicrhau cydymffurfiaeth â Rheoliadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL) ac unrhyw ddeddfwriaeth arall sy'n gysylltiedig â llywodraethu a gweinyddu'r Cynllun ac unrhyw gynllun cysylltiedig, ac unrhyw ofynion a osodwyd gan y Rheoleiddiwr Pensiynau mewn perthynas â'r Cynllun.

2.2. Sicrhau fod y Gronfa yn llywodraethu ac yn gweinyddu'r CPLlL yn effeithiol ac yn effeithlon.

2.3. Bydd y Bwrdd yn sicrhau ei fod, wrth ymgymryd â'i waith:

- yn ei wneud yn effeithiol ac yn effeithlon ac
- yn cydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol ac
- yn ei wneud drwy dalu sylw dyledus i, ac yn ysbryd y Cod Ymarfer ar lywodraethu a gweinyddu cynlluniau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus a gyhoeddwyd gan y Rheoleiddiwr Pensiynau ac unrhyw ganllawiau statudol neu anstatudol perthnasol eraill.

2.4. Mae'n rhaid i gofnodion Bwrdd pob cyfarfod gael eu darparu i gyfarfod dilynol Pwyllgor y Gronfa Bensiwn (y Pwyllgor) a allai gynnwys argymhellion i'r Pwyllgor cyn belled â'u bod yn gysylltiedig â rôl y Bwrdd.

2.5. Gall y Bwrdd gytuno i gyflwyno adroddiadau i'r Pwyllgor cyn belled â'u bod yn gysylltiedig â rôl y Bwrdd. Rhaid i unrhyw adroddiadau o'r fath gael eu darparu 10 diwrnod cyn cyfarfod nesaf y Pwyllgor i'r Swyddog Adran 151.

2.6. Mae'n rhaid i adroddiad blynyddol y Bwrdd (fel y'i paratowyd gan Aelod Annibynnol / Cadeirydd y Bwrdd), gael ei roi i'r Swyddog Adran 151, y Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith, y Pwyllgor, a'i gyhoeddi yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y Gronfa.

2.7. Os yw'r Bwrdd yn ystyried fod mater a dynnwyd i sylw y Pwyllgor heb gael ei weithredu arno neu ei ddatrys er boddhad iddynt, dylai'r Bwrdd roi adroddiad i'r Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith a'r Swyddog Adran 151.

2.8. Bydd gan y Bwrdd y pŵer i wneud unrhyw beth y tybir fydd yn hwyluso, neu'n gydnaws neu'n ategu at, gyflawni unrhyw un o'i swyddogaethau.

## AELODAETH Y BWRDD

### 3. Aelodaeth: Cyfansoddiad

3.1. Bydd y Bwrdd yn cynnwys 7 aelod fel a ganlyn:

- 3 Chynrychiolydd Cyflogwyr;
- 3 Chynrychiolydd Aelodau o'r Cynllun;
- 1 Aelod Cyfetholedig Annibynnol / Cadeirydd.

3.2. Ni chaniateir dirprwyon.

3.3. Dylai'r Awdurdod Gweinyddu wneud trefniadau priodol, fel ag y'u gosodwyd yn y ddogfen hon, i sefydlu aelodaeth y Bwrdd.

3.4. Ni chaiff unrhyw swyddog neu aelod etholedig o awdurdod gweinyddol sy'n gyfrifol am gyflawni unrhyw swyddogaeth i'r Gronfa o dan y rheoliadau hyn (ar wahân i unrhyw swyddogaeth sy'n gysylltiedig â Byrddau Pensiwn Lleol neu Fwrdd Cynghori'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol) fod yn aelod o'r Bwrdd.

3.5. Rhaid i'r Awdurdod Gweinyddu fod yn fodlon fod—

- unigolyn sydd i'w benodi'n Gynrychiolydd Cyflogwyr yn meddu ar y gallu i gynrychioli cyflogwyr ar y Bwrdd; ac
- unigolyn sydd i'w benodi'n Gynrychiolydd Aelodau o'r Cynllun yn meddu ar y gallu i gynrychioli aelodau ar y Bwrdd;
- unigolyn sydd i'w benodi'n Aelod Annibynnol / Cadeirydd yn meddu ar y gallu i gynrychioli aelodau ar y Bwrdd.

3.6. Bydd gan bob Cynrychiolydd Cyflogwyr ac Aelodau o'r Cynllun hawl pleidleisio unigol. Os digwydd i'r pleidleisiau fod yn gyfartal, bydd gan yr Aelod Annibynnol / Cadeirydd bleidlais fwrw. Ni fydd gan yr Aelod Annibynnol / Cadeirydd hawl pleidleisio fel arall.

3.7. Mae'n rhaid i'r Awdurdod Gweinyddu fod yn fodlon nad oes gan unrhyw un a benodir yn aelod o'r Bwrdd wrthdaro buddiannau.

3.8. Bydd y Swyddog Adran 151 yn diffinio ac yn adolygu'n gyson unrhyw feini prawf cymhwysedd/dewis a fydd yn berthnasol i aelodau'r Bwrdd gan roi sylw dyledus i Reoliadau'r CPLlL, Cod Ymarfer y Rheoleiddiwr Pensiynau a chanllawiau eraill (statudol neu fel arall).

## 4. Aelodaeth: Penodi Cynrychiolwyr Cyflogwyr

4.1. Gwahoddir pob cyflogwr yn y Gronfa i enwebu un cynrychiolydd i gynrychioli cyflogwyr ar y Bwrdd.

4.2. Bydd dyddiad cau yr enwebiadau yn isafswm o 2 wythnos o’r dyddiad yr estynnir y gwahoddiad yn ffurfiol.

4.3. Paratoir pecynnau ymgeisio a byddant ar gael i’r rheiny a gafodd eu henwebu.

4.4. Caiff y ceisiadau eu gwerthuso gan yr Awdurdod Gweinyddu yn erbyn meini prawf manyleb person y cytunwyd arnynt. Bydd yr Awdurdod Gweinyddu’n penodi 3 Chynrychiolydd Cyflogwyr.

4.5. Daw un Cynrychiolydd Cyflogwyr o Gyngor Sir Caerfyrddin, fel yr Awdurdod Gweinyddu.

4.6. Os na dderbynnir ceisiadau neu os yw’r ceisiadau a dderbynnir yn disgyn o dan isafswm y meini prawf cymhwysedd, bydd y Swyddog Adran 151 yn cymryd unrhyw gamau priodol yr ystyrir eu bod yn briodol i benodi Cynrychiolwyr Cyflogwyr addas.

## 5. Aelodaeth: Penodi Cynrychiolwyr Aelodau o’r Cynllun

5.1. Gofynnir i’r Cyd-undebau Llafur enwebu un person i gynrychioli aelodau o’r cynllun.

5.2. Dewisir Cynrychiolwyr eraill Aelodau o’r Cynllun drwy broses benodi a hysbysebir.

5.3. Bydd y dyddiad cau i dderbyn ceisiadau yn isafswm o 2 wythnos.

5.4. Paratoir pecynnau ymgeisio a byddant ar gael i’r rheiny sy’n gofyn am ffurflen gais.

5.5. Caiff y ceisiadau eu gwerthuso gan yr Awdurdod Gweinyddu yn erbyn meini prawf manyleb person y cytunwyd arnynt ac yna caiff rhestr fer ei llunio.

5.6. Os na dderbynnir ceisiadau neu os yw’r ceisiadau a dderbynnir yn disgyn o dan isafswm y meini prawf cymhwysedd, bydd y Swyddog Adran 151 yn cymryd unrhyw gamau priodol yr ystyrir eu bod yn briodol i benodi Cynrychiolwyr Aelodau o'r Cynllun addas.

## 6. Aelodaeth: Penodi Aelod Annibynnol / Cadeirydd

6.1. O ystyried gwybodaeth arbenigol a gofynion y swydd, ystyrir ei bod yn briodol fod yr Awdurdod Gweinyddu’n penodi cadeirydd annibynnol proffesiynol. Penodir i'r swydd drwy ymarfer tendro cystadleuol a dim ond ymgeiswyr digon gwybodus a phrofiadol fydd yn cael eu hystyried ar gyfer y swydd.

## 7. Tymor yn y Swydd

7.1. Penodir y Cynrychiolwyr Cyflogwyr am gyfnod o dair blynedd o ddyddiad sefydlu'r Bwrdd neu ddyddiad eu penodiad os yw'n hwyrach. Gellir ymestyn y cyfnod hwn am hyd at bum mlynedd os cytunir ar hynny gan y Swyddog Adran 151, yn benodol i helpu i sicrhau parhad profiad ar y Bwrdd. Daw'r swydd i ben yn awtomatig os yw'r unigolyn yn peidio â bod yn gyflogedig gan y cyflogwr hwnnw.

7.2. Penodir y Cynrychiolwyr Aelodau o'r Cynllun am gyfnod o dair blynedd o ddyddiad sefydlu'r Bwrdd neu ddyddiad eu penodiad os yw'n hwyrach. Gellir ymestyn y cyfnod hwn am hyd at bum mlynedd os cytunir ar hynny gan y Swyddog Adran 151, yn benodol i helpu i sicrhau parhad profiad ar y Bwrdd. Daw'r swydd i ben yn awtomatig os yw'r unigolyn yn peidio â bod yn aelod cynllun yn y Gronfa.

7.3. Penodir yr Aelod Annibynnol / Cadeirydd am gyfnod o hyd at dair blynedd o ddyddiad sefydlu'r Bwrdd neu ddyddiad eu penodiad os yw'n hwyrach. Gellir ymestyn y cyfnod hwn am hyd at bum mlynedd os cytunir ar hynny gan y Swyddog Adran 151, yn benodol i helpu i sicrhau parhad profiad ar y Bwrdd.

7.4. Gall unrhyw aelod o'r Bwrdd gael ei ailbenodi am dymhorau pellach yn dilyn proses benodi.

7.5. Mae'n bosibl na fydd dyddiadau'r tymor yn union gywir oherwydd cyfnod y broses benodi. Felly gellir ymestyn y tymor yn y swydd at y diben hwn neu amgylchiadau eithriadol eraill hyd at ddeuddeg mis gyda chytundeb y Swyddog Adran 151.

## 8. Diswyddo Aelodau

8.1. Ac eithrio pan maent yn peidio â bod yn gymwys (fel ag yr amlinellwyd ym mhwynt 7 uchod), dim ond drwy gytundeb unfrydol y Swyddog Adran 151, y Pennaeth Gweinyddu a'r Gyfraith a'r Aelod Annibynnol / Cadeirydd y gall aelod o'r Bwrdd gael ei dynnu o'r swydd yn ystod tymor y penodiad.

8.2. Mae'n rhaid i Aelodau'r Bwrdd gadw at God Ymddygiad Cyngor Sir Caerfyrddin i Aelodau ac Aelodau Cyfetholedig. Os methir â gwneud hynny byddant yn cael eu tynnu oddi ar y Bwrdd.

8.3. Mae tynnu'r Aelod Annibynnol / Cadeirydd yn gofyn am gytundeb unfrydol gan y Swyddog Adran 151 a'r Pennaeth Gweinyddu a'r Gyfraith.

## 9. Aelodau'n Ymddiswyddo

9.1. Gall unrhyw aelod ymddiswyddo ar unrhyw adeg, drwy roi rhybudd ysgrifenedig o 3 mis i Aelod Annibynnol / Cadeirydd y Bwrdd.

9.2. Gall yr Aelod Annibynnol / Cadeirydd ymddiswyddo ar unrhyw adeg, drwy roi 3 mis o rybudd ysgrifenedig i'r Swyddog Adran 151.

## TREFNIADAU CYFARFOD

### 10. Rôl yr Aelod Annibynnol / Cadeirydd

10.1. Sicrhau fod pob aelod o'r Bwrdd yn dangos parch tuag at y drefn, fod pob barn yn cael ei chlywed a'i hystyried yn llawn a bod penderfyniadau'n cael eu gwneud yn ddemocrataidd os na ellir dod i gytundeb llawn.

10.2. Cynnal a hyrwyddo pwrpas y Bwrdd a dehongli ei Gylch Gorchwyl lle bo'r angen.

10.3. Ar y cyd â'r Swyddog Adran 151, sicrhau fod gan aelodau'r Bwrdd y wybodaeth a'r sgiliau fel y'u pennwyd ym Mholisi Hyfforddiant y Gronfa a deddfwriaeth neu ganllawiau eraill ac yn cadw cofnod o hyfforddiant, a heb wrthdaro buddiannau (gweler 16.5).

10.4. Gweithredu fel ymgynghorydd proffesiynol i'r Bwrdd neu drefnu cyngor o'r fath fel y bo'r angen yn ddarostyngedig i gytundeb gan y Swyddog Adran 151 ar yr amodau y mae'r swyddog hwnnw'n eu pennu.

10.5. Cytuno ar yr agenda i bob cyfarfod o'r Bwrdd.

10.6. Cymeradwyo cofnodion cyfarfodydd y Bwrdd .

10.7. Sicrhau fod cofnod presenoldeb yn cael ei gadw ynghyd â chynghori Cyngor Sir Caerfyrddin ar y treuliau i'w talu.

10.8. Cynghori Cyngor Sir Caerfyrddin ar gyllideb briodol i'r Bwrdd.

10.9. Ysgrifennu'r adroddiadau sydd eu hangen ar Gyngor Sir Caerfyrddin ar waith y Bwrdd.

10.10. Cysylltu â Rheolwr y Trysorlys a Buddsoddiadau Pensiwn ynglŷn â gofynion y Bwrdd, gan gynnwys rhybudd ymlaen llaw i swyddogion Cyngor Sir Caerfyrddin fynychu a threfnu dyddiadau ac amserau cyfarfodydd y Bwrdd.

10.11. Bod yn bresennol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor fel sylwedydd, ac adrodd i'r Pwyllgor am faterion y Bwrdd yn ôl yr angen.

10.12. Tasgau eraill fel y bernir yn briodol gan Gyngor Sir Caerfyrddin i Aelod Annibynnol / Cadeirydd y Bwrdd.

10.13. Tasgau eraill ar gais aelodau'r Bwrdd, o fewn maes gorchwyl y Cylch Gorchwyl hwn ac yn ddarostyngedig i gytundeb â'r Swyddog Adran 151.

10.14. Adolygu ac adrodd am berfformiad y Bwrdd yn flynyddol.

10.15. Bydd penderfyniad yr Aelod Annibynnol / Cadeirydd ar bob pwynt gweithdrefn a threfn a dehongliad yr Aelod Annibynnol / Cadeirydd o'r Cylch Gorchwyl yn derfynol.

10.16. Mae disgrifiad swydd drafft llawn yn Atodiad A.

## 11. Cyfarfodydd y Bwrdd

11.1. Fel arfer bydd y Bwrdd yn cwrdd yn swyddfeydd y Gronfa, er y gellir defnyddio swyddfeydd unrhyw Gynrychiolwyr Cyflogwyr gyda chytundeb yr Aelod Annibynnol / Cadeirydd ymlaen llaw a heb gost swyddfa ychwanegol i'r Gronfa. Pan fo'n briodol, gellir cynnal cyfarfodydd yn rhithwir.

11.2. Bydd cyfarfodydd y Bwrdd yn gyhoeddus. Gweler pwynt 18 isod, i gael rhagor o wybodaeth am bresenoldeb.

11.3. Bydd y Bwrdd yn cwrdd bedair gwaith ym mhob blwyddyn galendr. Os nad yw'r Bwrdd yn credu fod hyn yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau a'i gyfrifoldebau yn effeithiol gall yr Aelod Annibynnol / Cadeirydd wneud cais i'r Swyddog Adran 151 am gymeradwyaeth i gynnal cyfarfodydd ychwanegol.

11.4. Gall eitemau brys y Bwrdd rhwng cyfarfodydd, mewn amgylchiadau eithriadol, gael eu trafod drwy gyfathrebu rhwng aelodau'r Bwrdd, gan gynnwys drwy gynhadledd ffôn/fideo ac e-byst.

11.5. Bydd y Swyddog Adran 151 yn cytuno ar agenda gyda'r Aelod Annibynnol / Cadeirydd y Bwrdd cyn pob cyfarfod o'r Bwrdd. Bydd hawl gan unrhyw aelod o'r Bwrdd i ofyn am gael rhoi eitem ar agenda cyfarfod pellach, yn amodol ar sêl bendith yr Aelod Annibynnol / Cadeirydd.

11.6. Bydd yr agenda ac unrhyw bapurau i'r Bwrdd yn cael eu cyhoeddi o leiaf 3 diwrnod gwaith cyn y cyfarfod ac eithrio yn achos materion brys.

11.7. Bydd cofnodion drafft pob cyfarfod gan gynnwys yr holl gamau gweithredu a chytundebau yn cael eu cofnodi a'u hanfon at holl aelodau'r Bwrdd cyn pen 10 diwrnod gwaith ar ôl y cyfarfod. Bydd y cofnodion drafft hyn yn amodol ar gytundeb ffurfiol gan yr Aelod Annibynnol / Cadeirydd wedi ystyried sylwadau gan aelodau'r Bwrdd (gellir gwneud hyn yn electronig rhwng cyfarfodydd).

11.8. Gall y cofnodion, yn ôl doethineb yr Aelod Annibynnol / Cadeirydd, gael eu golygu i eithrio eitemau ar y sail y byddent naill ai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel ag y pennwyd yn Rhan 1 o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 neu am eu bod yn gyfrinachol at ddibenion Adran 100A(2) o'r Ddeddf honno a/neu'n cynrychioli data sy'n dod o dan Ddeddf Diogelu Data 1998.

## 12. Cworwm

12.1. Disgwylir i bob Aelod o'r Bwrdd fynychu cyfarfodydd yn rheolaidd. Cedwir cofnodion presenoldeb yr Aelodau i gyd ac fe'u hadroddir i'r Swyddog Adran 151 o leiaf unwaith y flwyddyn.

12.2. Yr isafswm presenoldeb i gyfarfod o'r Bwrdd fynd yn ei flaen yw pan fo o leiaf 4 yn bresennol, gan gynnwys o leiaf:

- un Cynrychiolydd Cyflogwyr ac
- un Cynrychiolydd Aelodau o'r Cynllun a'r
- Aelod Cyfetholedig Annibynnol / Cadeirydd.

12.3. Yn amodol ar gytundeb gan yr Aelod Annibynnol / Cadeirydd gallai hyn gynnwys presenoldeb o hirbell.

## 13. Pleidleisio

13.1. Bydd y pleidleisio drwy fwyafrif.

13.2. Bydd gan Gynrychiolwyr Cyflogwyr ac Aelodau o'r Cynllun hawl pleidleisio unigol yr un. Os digwydd i'r pleidleisiau fod yn gyfartal, bydd gan yr Aelod Annibynnol / Cadeirydd bleidlais fwrw. Ni fydd gan yr Aelod Annibynnol / Cadeirydd hawl pleidleisio fel arall.

13.3. Bydd y pleidleisio'n digwydd drwy godi dwylo.

13.4. Bydd canlyniadau unrhyw bleidleisio'n cael eu hadrodd yng nghofnodion y Bwrdd.

13.5. Gall unrhyw aelod o'r Bwrdd ofyn am i'r ffordd y pleidleision nhw gael ei gofnodi yn y cofnodion.

## 14. Cydnabyddiaeth a threuliau

14.1 Caiff treuliau'r Bwrdd eu hystyried yn rhan o gostau gweinyddu'r Gronfa.

14.2. Bydd pob Cynrychiolydd Cyflogwyr ac Aelodau o'r Cynllun yn cael hawlio lwfansau teithio a chynhaliaeth ar y cyfraddau sydd yng Nghynllun Lwfansau Cynghorwyr ac Aelodau Cyfetholedig.

14.3. Bydd gan yr Aelod Annibynnol / Cadeirydd hawl i ffi briodol y cytunir arni gan y Swyddog Adran 151 yn ogystal â lwfansau teithio a chynhaliaeth ar y cyfraddau sydd yng Nghynllun Lwfansau Cynghorwyr ac Aelodau Cyfetholedig.

## 15. Cyllidebau

15.1. Bydd y Bwrdd yn cael adnoddau digonol i gyflawni ei rôl. I wneud hynny bydd y gyllideb i'r Bwrdd yn dod o'r Gronfa a bydd yn cael ei phennu gan:

- Yr Awdurdod Gweinyddu a fydd yn dyrannu cyllideb flynyddol a reolir gan ac yn ôl doethineb y Bwrdd.

## 16. Gwrthdaro Buddiannau

16.1. Diffinnir gwrthdaro buddiannau yn Neddf Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus fel:
"mewn perthynas ag unigolyn, yn golygu buddiant ariannol neu fel arall sy'n debygol o ragfarnu rhyddhad swyddogaethau'r unigolyn fel aelod o'r Bwrdd (ond nid yw'n cynnwys buddiant ariannol neu fel arall sy'n deillio'n unig yn rhinwedd bod yn aelod o'r cynllun neu unrhyw gynllun cysylltiedig)."

16.2. Disgwylir i bob aelod o'r Bwrdd (yn ogystal ag unrhyw un arall sy'n cymryd rhan yn y cyfarfod) ddatgan, wrth gael eu penodi ac ym mhob cyfarfod, unrhyw fuddiannau a all arwain at wrthdaro buddiannau yn y maes pwnc neu yn agenda benodol y Bwrdd hwnnw.

16.3. Rhaid i Aelod Annibynnol / Cadeirydd y Bwrdd fod yn fodlon fod y Bwrdd yn gweithredu:

- o fewn gofynion gwrthdaro buddiannau Deddf Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus a Rheoliadau CPLlL, ac

- yn ysbryd unrhyw ganllawiau neu god ymarfer cenedlaethol sy'n gysylltiedig â gwrthdaro buddiannau o ran y Bwrdd.

16.4. Rhaid i bob aelod o'r Bwrdd, neu unigolyn y cynigiwyd ei benodi i'r Bwrdd, (yn ogystal â'r rhai sy'n mynychu ac yn cymryd rhan yn y cyfarfod) roi i Aelod Annibynnol / Cadeirydd y Bwrdd y wybodaeth sydd ei hangen yn rhesymol arno ef/arni hi at ddibenion dangos nad oes gwrthdaro buddiannau.

16.5. Gyda'i gilydd bydd y Swyddog Adran 151 a'r Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith yn ymgymryd â'r rôl o sicrhau nad oes gan Aelod Annibynnol / Cadeirydd y Bwrdd wrthdaro buddiannau yn yr un ffordd ag y mae'r Aelod Annibynnol / Cadeirydd yn ei wneud gydag aelodau eraill y Bwrdd.

## 17. Gwybodaeth a Sgiliau

17.1. O dan ofynion Deddf Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus, mae'n rhaid i aelod o'r Bwrdd fod yn hyddysg yn y canlynol:

- deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig y CPLlL, ac
- unrhyw ddogfen sy'n cofnodi polisi am y gweinyddiad, y cyllid a'r buddsoddiad a fabwysiadwyd gan y Gronfa.

17.2. Yn ychwanegol, mae'n rhaid i aelod o'r Bwrdd feddu ar wybodaeth a dealltwriaeth o –

- Y gyfraith sy'n ymwneud â phensiynau, ac
- Unrhyw fater arall a ragnodir mewn rheoliadau.

17.3. Cyfrifoldeb aelodau unigol y Bwrdd (ar y cyd â'r Aelod Annibynnol / Cadeirydd a'r Swyddog Adran 151) yw bod yn fodlon eu bod yn meddu ar y wybodaeth a'r ddealltwriaeth briodol i'w galluogi i gyflawni eu swyddogaethau'n iawn fel aelod o'r Bwrdd.

17.4. Gofynnir i aelodau'r Bwrdd allu dangos eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth a gloywi a diweddaru eu gwybodaeth yn gyson.

17.5. Felly mae gofyn i aelodau'r Bwrdd:

- Cymryd rhan mewn digwyddiadau hyfforddi (cedwir cofnod ysgrifenedig o'r hyfforddiant a'r datblygiad perthnasol).
- Gwneud dadansoddiad anghenion hyfforddi personol neu ddull arall er mwyn nodi'r bylchau mewn sgiliau, galluoedd a gwybodaeth.
- Cydymffurfio â Pholisi Hyfforddiant y Gronfa cyn belled â'i fod yn gysylltiedig ag aelodau'r Bwrdd.

## 18. Presenoldeb eraill

18.1. Bydd gan y canlynol hawl i fynychu cyfarfodydd y Bwrdd fel sylwedydd:

- Caiff aelodau'r Pwyllgor a Chadeirydd y Pwyllgor gyflwyno adroddiad i'r Bwrdd lle bo angen,
- y Swyddog Adran 151, Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol, Rheolwr y Trysorlys a Buddsoddiadau Pensiwn, y Rheolwr Pensiynau a’r Pennaeth Gweinyddiaeth a’r Gyfraith,
- swyddogion neu ymgynghorwyr eraill i Gyngor Sir Caerfyrddin neu gyflogwyr eraill sydd ynghlwm â rheoli’r Gronfa yn amodol ar sêl bendith ymlaen llaw yr Aelod Annibynnol / Cadeirydd, neu ar gais yr Aelod Annibynnol / Cadeirydd,
- y cyhoedd (fel sylwedyddion yn unig).

18.2. Caiff unrhyw un sy’n bresennol fel hyn (ac eithrio'r cyhoedd) ganiatâd i siarad yn ôl disgresiwn yr Aelod Annibynnol / Cadeirydd.

## 19. Cyhoeddi Gwybodaeth y Bwrdd

19.1. Yn unol â Deddf Pensiynau’r Gwasanaeth Cyhoeddus, mae gofyn i Gyngor Sir Caerfyrddin gyhoeddi gwybodaeth am y Bwrdd gan gynnwys:

- pwy yw aelodau’r Bwrdd,
- cynrychiolaeth ar y Bwrdd,
- rôl y Bwrdd,
- y Cylch Gorchwyl hwn.

19.2. Yn unol ag arferion da, gall Cyngor Sir Caerfyrddin gyhoeddi gwybodaeth arall sy’n gysylltiedig â’r Bwrdd fel ag yr ystyrir yn briodol o dro i dro ac a all gynnwys:

- yr agendâu a’r cofnodion,
- cofnodion hyfforddiant a phresenoldeb,
- adroddiad blynyddol ynghylch gwaith y Bwrdd .

19.3. Gall y cyfan neu rywfaint o'r wybodaeth hon gael ei chyhoeddi yn y cyfryngau canlynol neu mewn ffyrdd eraill fel ag yr ystyrir yn briodol o dro i dro:

- ar wefan y Gronfa,
- ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin,
- yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y Gronfa,
- ym Mholisi Llywodraethu a Datganiad Cydymffurfiaeth y Gronfa.

19.4. Gall gwybodaeth gael ei heithrio ar y sail y byddai naill ai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel ag y pennwyd yn Rhan 1 o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 neu am eu bod yn gyfrinachol at ddibenion Adran 100A(2) o'r Ddeddf honno a/neu'n cynrychioli data sy'n dod o dan Ddeddf Diogelu Data 1998.

## 20. Adroddiad Blynyddol

20.1. Rhaid i'r Bwrdd lunio adroddiad blynyddol ynghylch gwaith y Bwrdd drwy gydol y flwyddyn.

20.2. Rhaid i'r adroddiad blynyddol gael ei gyflwyno i'r Swyddog Adran 151, y Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith, y Pwyllgor, ac fe'i cyhoeddir yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y Gronfa.

## 21. Derbyn cyngor a gwybodaeth

21.1. Bydd aelodau'r Bwrdd yn derbyn yr adroddiadau terfynol, y cofnodion a'r agendâu sy'n ymwneud â holl gyfarfodydd y Pwyllgor a bydd gofyn i'r Aelod Annibynnol / Cadeirydd fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor fel sylwedydd wyneb yn wyneb neu'n rhithwir.

21.2. Cyn belled â'i fod yn gysylltiedig â swyddogaeth y Bwrdd, gall hefyd;

- ofyn am a derbyn gwybodaeth ac adroddiadau gan y Pwyllgor neu unrhyw gorff neu swyddog sy'n gyfrifol am reoli'r Gronfa,
- archwilio penderfyniadau neu gamau a wnaed gan y Pwyllgor neu unrhyw gorff neu swyddog sy'n gyfrifol am reoli'r Gronfa.

21.3. Mae unrhyw geisiadau pellach am wybodaeth neu gyngor yn amodol ar sêl bendith y Swyddog Adran 151 a fydd yn gorfod ystyried yn gadarnhaol bob cais rhesymol mewn perthynas â rôl y Bwrdd yn ogystal ag ystyried gwerth am arian.

## 22. Gweithredu er budd y Gronfa gyfan

22.1. Er bod aelodau'r Bwrdd yn cynnwys cynrychiolwyr o gategorïau penodol o randdeiliaid (h.y. aelodau'r cynllun a chyflogwyr) mae gofyn i bob aelod dalu sylw dyledus i Rôl y Bwrdd fel y'i disgrifir yn y Cylch Gorchwyl hwn.

22.2. Disgwylir i bob aelod weithio gyda'i gilydd er budd y Gronfa gyfan, yn hytrach na chynrychioli buddiannau unrhyw randdeiliaid unigol.

22.3. Ni ddylai hyn atal Aelodau rhag rhannu eu gwybodaeth am sut y gallai materion effeithio ar randdeiliaid penodol y Gronfa.

## 23. Atebolrwydd

23.1. Bydd y Bwrdd yn gyfunol ac yn unigol yn atebol i Gyngor Sir Caerfyrddin fel Awdurdod Gweinyddu y Gronfa.

## 24. Adolygu, Dehongli a Chyhoeddi'r Cylch Gorchwyl

24.1. Cytunwyd ar y Cylch Gorchwyl gan Gyngor Sir Caerfyrddin. Bydd y Cyngor yn monitro a gwerthuso sut mae'r Bwrdd yn gweithredu a gall adolygu'r Cylch Gorchwyl hwn o dro i dro.

24.2. Bydd y Cylch Gorchwyl hwn yn cael ei ymgorffori yng Nghyfansoddiad y Cyngor a bydd ar gael yn gyhoeddus fel rhan o'r Cyfansoddiad fel y'i diffiniwyd yng Nghyfansoddiad y Cyngor a gall gael ei ddiwygio yn yr un ffordd ag y caniateir i'r Cyfansoddiad.

24.3. Bydd hefyd yn ffurfio rhan o Bolisi Llywodraethu a Datganiad Cydymffurfiaeth y Gronfa a fydd ar gael yn unol â gofynion Rheoliadau'r CPLlL.

## 25. Diffiniadau a dehongli

Pwyntiau dehongli:

Mae pob cyfeiriad at swyddogion yn cyfeirio at swyddogion yng Nghyngor Sir Caerfyrddin oni nodir yn wahanol.

Bydd gan y termau a nodir isod yr ystyr canlynol yn y ddogfen hon:

| | |
|---|---|
| *“Bwrdd Pensiwn" neu "Bwrdd”* | Bwrdd Pensiwn Cronfa Bensiwn Dyfed, fel sy’n ofynnol o dan Ddeddf Pensiynau’r Gwasanaeth Cyhoeddus 2013 |
| *"Cronfa”* neu *“Cronfa Bensiwn"* | Cronfa Bensiwn Dyfed |
| *"Rheoliadau CPLlL"* | Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013 (fel y’u diwygiwyd) |
| *Deddf Pensiynau’r Gwasanaeth Cyhoeddus* | Deddf Pensiynau’r Gwasanaeth Cyhoeddus 2013 (fel y’i diwygiwyd) |
| *“Rheolwr y Cynllun”* | Cyngor Sir Caerfyrddin fel awdurdod gweinyddu Cronfa Bensiwn Dyfed. |
| *“Cadeirydd”* | Y sawl a benodwyd yn Gadeirydd y Bwrdd Pensiwn |
| *“CPLlL”* | Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol |
| *“Cynllun”* | Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol |
| *“Gallu”* | Gallu cael yr amser a’r adnoddau i fynychu cyfarfodydd, hyfforddiant ayyb |

## ATODIAD A

## Disgrifiad Swydd Cadeirydd y Bwrdd Pensiwn

### Crynodeb o'r Swydd

Rôl y Cadeirydd yw rhoi arweinyddiaeth a chyfeiriad i'r Bwrdd.

Nod y Cadeirydd yw galluogi'r Bwrdd i gyflawni ei gyfrifoldebau o safbwynt llywodraethu Cronfa Bensiwn Dyfed (y Gronfa) yn unol â Deddf Cynllun Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus 2013 (CPGC13), deddfwriaeth sy'n llywodraethu'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL) a'r Cod Ymarfer a gyhoeddir gan y Rheoleiddiwr Pensiynau.

Byddwch yn chwarae rhan bwysig yn nhrefn lywodraethol a gweinyddiaeth y Gronfa. Bydd aelodau'r Cynllun, cyflogwyr a Chyngor Sir Caerfyrddin, fel Awdurdod Gweinyddu y Gronfa (a elwir yn Rheolwr y Cynllun o dan CPGC13) yn elwa o'r gwaith a wnewch yn helpu i sicrhau fod y Gronfa'n cael ei rheoli'n dda.

Gall y materion a ystyriwch fod yn sensitif a chymhleth ar adegau. Dylech ymgymryd â'ch dyletswyddau gyda'r gofal a'r sylw eithaf.

Rôl y Cadeirydd yw gweithio'n agos mewn partneriaeth â Rheolwr y Cynllun a'i helpu o ran y materion canlynol:

- sicrhau cydymffurfiaeth â rheoliadau'r cynllun a deddfwriaeth arall mewn perthynas â llywodraethu a gweinyddu'r cynllun ac unrhyw gynllun pensiwn statudol sy'n gysylltiedig ag ef
- sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofynion a osodir ar y cynllun ac unrhyw gynllun cysylltiedig gan y Rheoleiddiwr Pensiynau
- sicrhau fod unrhyw achos o dorri dyletswydd yn cael ei ystyried a'i ddilyn o dan weithdrefn y cynllun i adrodd amdano wrth y Rheoleiddiwr Pensiynau a Rheolwr y Cynllun
- unrhyw faterion eraill y gall rheoliadau'r cynllun eu pennu.
- helpu Rheolwr y Cynllun i sicrhau fod y cynllun yn cael ei lywodraethu a'i weinyddu'n effeithiol ac effeithlon.

Disgwylir i'r Cadeirydd ddefnyddio unrhyw sgiliau, gwybodaeth neu brofiad penodol i helpu'r Bwrdd i wneud argymhellion cadarn. Bydd hyn yn golygu craffu ar bapurau'r Bwrdd, arwain trafodaethau, canolbwyntio ar faterion allweddol, a rhoi cyngor a chanllawiau ar gais y Bwrdd y mae gan y Cadeirydd arbenigrwydd ynddynt.

Yn ychwanegol at gyfrifoldebau penodol aelod o Fwrdd, mae gan y Cadeirydd nifer o dasgau sy'n benodol i'w swyddogaeth.

**Prif Gyfrifoldebau'r Cadeirydd**

- rhoi arweinyddiaeth i aelodau'r Bwrdd yn eu gwaith o osod strategaeth a pholisi'r Bwrdd
- cynllunio'r cylch blynyddol o gyfarfodydd Bwrdd a gosod yr agendâu
- cadeirio a hwyluso cyfarfodydd y Bwrdd gan sicrhau fod pob llais a barn yn cael eu clywed a barnu pryd y ceir consensws
- bod yn bresennol yn y Cyfarfod Ymgynghori Blynyddol
- cyfrannu at adroddiad blynyddol y Gronfa
- monitro fod yr argymhellion a wnaed yng nghyfarfodydd y Bwrdd yn cael eu gweithredu
- cysylltu â Rheolwr y Trysorlys a Buddsoddiadau Pensiwn er mwyn cadw trosolwg ar y gwaith a rhoi cefnogaeth fel y bo'n briodol
- adolygu ac asesu perfformiad y Bwrdd
- cael cyngor amserol ar arferion gorau yn yr holl ddatblygiadau newydd sy'n berthnasol i'r CPLIL a phensiynau yn gyffredinol a sicrhau cydymffurfiaeth fel y bo'n briodol
- sicrhau fod gofynion y Bwrdd o ran adrodd yn ôl yn cael eu bodloni gan gynnwys, er enghraifft, i'r Rheoleiddiwr Pensiynau a Bwrdd Cynghori'r Cynllun
- cydbwyso barn ac anghenion y cyflogwyr sy'n cymryd rhan ac aelodau'r cynllun
- hyfforddiant, gwybodaeth a sgiliau
  - gwneud yn siŵr fod aelodau newydd y Bwrdd i gyd yn deall ac yn sylweddoli eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau yn llawn
  - sicrhau fod gwybodaeth a sgiliau priodol pob un o aelodau'r Bwrdd yn cael eu mesur, eu monitro a'u cynnal
  - meddu ar ddealltwriaeth berthnasol o gyfraith pensiynau a gwybodaeth ymarferol o'r CPLIL a'i ddogfennaeth
  - ar y cyd â'r Swyddog Adran 151, sicrhau fod pob un o aelodau'r Bwrdd yn cael eu datblygu fel grŵp ac fel unigolion, er mwyn eu galluogi i gyflawni'u dyletswyddau'n effeithiol
  - sicrhau fod yr hyfforddiant parhaus ar faterion perthnasol yn bodloni anghenion aelodau'r Bwrdd.

**Y Rhinweddau a Ddisgwylir gan y Cadeirydd**

- prawf o sgiliau arwain ynghyd â'r gallu i gadeirio cyfarfodydd yn effeithiol
- mynegiant croyw ar bapur ac ar lafar, gan gynnwys paratoi papurau ffurfiol a siarad mewn achlysuron cyhoeddus
- digon o urddas a sensitifrwydd i weithredu'n effeithiol ar bob lefel yn fewnol ac yn allanol
- ymroddiad i'r swydd
- arweinyddiaeth
- didwylledd, gweledigaeth strategol a barn dda/annibynnol
- parodrwydd i roi'r amser a'r ymdrech angenrheidiol i'w dyletswyddau fel Cadeirydd
- y gallu i helpu i ffurfio argymhellion
- sgiliau cyfathrebu da
- tact a doethineb
- parodrwydd i ddweud eu barn a gwrando ar farn pobl eraill
- dealltwriaeth o gyfrifoldebau a rhwymedigaethau cyfreithiol aelod o Fwrdd

**Profiad a gwybodaeth ddymunol**

- gwybodaeth a phrofiad o lywodraethu neu reoli cynlluniau pensiwn gweithle a'r cyrff rheoleiddiol sydd ynghlwm â nhw
- gwybodaeth dda am y CPLlL
- ymwybyddiaeth o'r ddogfen bolisi am weinyddiaeth y CPLlL a fabwysiedir gan y Gronfa ar hyn o bryd
- profiad blaenorol o waith pwyllgor/ymddiriedolwr
- y gyfraith sy'n ymwneud â phensiynau
- unrhyw faterion a ragnodir mewn rheoliadau.

**Ystyriaeth amser**

- Bydd y Bwrdd yn cwrdd bedair gwaith ym mhob blwyddyn galendr
- Bod yn bresennol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor fel sylwedydd naill ai wyneb yn wyneb neu'n rhithwir
- Mae'n bwysig bod y Cadeirydd yn gallu ymweld â'r swyddfa (swyddfeydd) a bod ar gael i Reolwr y Cynllun pan fydd angen
- Yn ychwanegol at gyfarfodydd y Bwrdd, bydd angen cysylltu'n electronig neu ar y ffôn
- Disgwylir i'r ymrwymiad amser fel Cadeirydd fod yn 10 diwrnod y flwyddyn, ar gyfartaledd

**Cydnabyddiaeth**

Bydd gan y Cadeirydd hawl i ffi briodol y cytunir arni gan y swyddog Adran 151 yn ogystal â lwfansau teithio a chynhaliaeth ar y cyfraddau sydd yng Nghynllun Lwfansau Cynghorwyr ac Aelodau Cyfetholedig.